# TUA'R GOLEUNI

## YN DATHLU LLWYDDIANNAU, GYDA'N GILYDD.

Gan Tracey Neale,

Wrth i ni gyrraedd diwedd hanner tymor bywiog a chynhyrchiol arall, mae'n hyfryd myfyrio ar bopeth y mae ein disgyblion a'n staff wedi'u cyflawni gyda'i gilydd.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion wedi bod yn gweithio'n ddiwyd - o ddangos ymrwymiad yn ystod arholiadau llafar TGAU i ddangos brwdfrydedd ac ysbryd tîm yn y gemau rhynglysol. Mae wedi bod yn bleser gweld cymaint o ddycnwch ar hyd ac ar led yr ysgol.

Mae ein staff hefyd wedi bod yn brysur, yn parhau i wreiddio'r cwricwlwm newydd er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn mwynhau profiadau dysgu ysgogol, heriol ac ystyrlon. Mae eu creadigrwydd a'u hymroddiad yn helpu i wneud ein hystafelloedd dosbarth yn llefydd cyffrous lle gall ein dysgwyr ffynnu.

Rhaid cyfeirio'n arbennig at ein disgyblion Blwyddyn 7 gwych, sydd wedi ymgartrefu'n arbennig.




Mae ein Cyngor Ysgol bellach ar waith hefyd. Diolch i'n Penaethiaid Blwyddyn am drefnu'r gwasanaethau i ethol ein cynrychiolwyr eleni ac i'n holl ddisgyblion dewr am annerch eu blynyddoedd. Roedd eich angerdd a'ch syniadau yn galonogol iawn.

Wrth i ni edrych ymlaen at y tymor nesaf, rydym yn gyffrous i barhau i weithio'n agos gyda'n teuluoedd i gefnogi taith ddysgu pob disgybl.

Gyda'n gilydd, gallwn sicrhau bod pennod nesaf y flwyddyn ysgol yr un mor ysbrydoledig a llwyddiannus â'r bennod hon!

## Dechrau da i Flwyddyn 7!

Hoffem ddiolch yn fawr i holl ddisgyblion Blwyddyn 7 am ymdrechu mor dda ac am ymgartrefu'n ddi-drafferth i fywyd ysgol. Diolch hefyd i chi, ein teuluoedd, a fynychodd Noson Croeso Blwyddyn 7 — gobeithiwn yn ddiffuant eich bod wedi gweld y noson yn un adeiladol a defnyddiol. Cofiwch i gysylltu ar unrhyw adeg os hoffech holi cwestiwn neu gynnig adborth. Mae eich mewnbwn yn hanfodol i sicrhau ein bod bob amser yn mireinio ein harferion.

Cofiwch mai un o uchafbwyntiau'r cyfnod pontio fydd y daith i Langrannog ym mis Rhagfyr, lle fydd y disgyblion yn cael cyfle i gryfhau perthnasau newydd gyda'u cyd-disgyblion a'u hathrawon mewn modd anffurfiol ar ddiwedd tymor hir.

Diolch hefyd i Heddlu Gwent am gynnal gweithdai hynod bwysig ar ddiogelwch ar y we gyda Blwyddyn 8, gan roi cyngor defnyddiol ac ymarferol i'n disgyblion am gadw'n ddiogel ar-lein.





Da iawn i ymgeiswyr y Cyngor Ysgol!




Hip hip hwre! Llongyfarchiadau mawr i'n disgyblion Blwyddyn 7 a etholwyd yn gynrychiolwyr Cyngor Ysgol eleni – eich areithiau oedd yn anhygoel!
Mae ein cyngor ysgol yn parhau i gryfhau ac maent eisoes yn gosod targedau a thrafod sut i sicrhau bod pawb yn cael y cyfle gorau i ffynnu yn yr ysgol.

# Dathlu ein Pwyllgorau Llwyddiannus

Diolch enfawr i holl aelodau ein Pwyllgorau Eich Llais sydd wedi gweithio'n ddiwyd dros y tymor cyntaf.

Diolch i'n Pwyllgor Dinasyddiaeth, a drefnodd gynllun codi arian am ganser y fron trwy wisgo un eitem o binc a chodwyd ymwybyddiaeth o'r diwrnod. Byddwn yn rhannu'r cyfanswm a godwyd gyda'r teuluoedd yn fuan iawn — diolch i bawb am gefnogi'r achos pwysig hwn! Mae'r Pwyllgor hefyd yn brysur iawn yn trefnu diwrnod hwyl Trwynau Coch — byddwch yn barod ddisgyblion ar gyfer gemau, chwerthin, a llawer o hwyl!

Diolch i'r Pwyllgor Cymreictod am hefyd ddechrau y flwyddyn yn frwd gan ledaenu'r Gymraeg ar hyd ac ar led yr ysgol. Y diwrnod cyntaf iddynt ddathlu oedd Diwrnod Shw Mae/Su'Mae.



Paratowyd fideo egniol gyda'n disgyblion ac athrawon yn dathlu'r ffaith eu bod yn unigryw ac yn medru'r Gymraeg.

Diolch i'r holl bwyllgorau Eich Llais am eich brwdfrydedd, gwaith caled a'ch creadigrwydd yn gwneud Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn lle gwirioneddol ysbrydoledig i ddysgu. Edrychwn ymlaen at adrodd ar waith y Pwyllgorau eraill yn ein Cylchgrawn Nadolig.

Dyma ddechrau dathliadau Cymreictod y flwyddyn!

## Diolch i'n teuluoedd Blwyddyn 6!



Roedd yn bleser enfawr croesawu cymaint o rieni, gofalwyr a disgyblion Blwyddyn 6 i safleoedd yr ysgol fel rhan o'n rhaglen bontio. Mae o hyd yn hyfryd cael cyfarfod disgyblion y dyfodol a dechrau adeiladu'r berthynas arbennig honno cyn iddynt ymuno â ni ym Mlwyddyn 7.

Diolch enfawr i'n disgyblion gwych y chweched am arwain y teithiau o amgylch yr ysgol gyda hyder, cynhesrwydd a phroffesiynoldeb — rydym mor falch ohonoch! Ac wrth gwrs, diolch arbennig i'n staff bugeiliol am eu cyflwyniadau rhagorol, a roddodd gipolwg gwerthfawr i deuluoedd ar y gofal a'r gefnogaeth sy'n nodweddiadol yma yng Nghwm Rhymni. Roedd cyfarfod ein teuluoedd newydd yn atgoffa pawb pa mor gyffrous yw'r daith i'r ysgol uwchradd — edrychwn ymlaen yn eiddgar at eich gweld eto'n fuan!




## Eisteddfod y Cymoedd

Diolch enfawr i'n holl ddisgyblion, staff, teuluoedd a chystadleuwyr lleol a ddaeth i gefnogi Eisteddfod y Cymoedd ar ddiwedd yr hanner tymor. Roedd yn bleser gwirioneddol gweld cymaint o'n disgyblion nid yn unig yn cymryd rhan, ond yn llwyddo'n wych gan dderbyn sylwadau cefnogol gan y beirniaid.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n disgyblion coginio a lletygarwch am ddarparu'r gwasanaeth bwyd, a hefyd i'n gwirfoddolwyr Chweched Dosbarth a Gwydion Jones o Flwyddyn 9, a gynorthwyodd i gadw'r gegin ar agor tan 11yh – am noson fendigedig!




## Unigolion Hyderus a Medrus

Waw – am gyfres o wythnosau cyffrous! Mae ein disgyblion wedi bod yn brysur ar draws yr ysgol, o ymweld â phrifysgolion yng Nghymru, dysgu am y dathliad Diwali ac hefyd cyflawni holiaduron gwasanaeth cwsmeriaid i'r cyhoedd ar gyfer y cwrs BTEC busnes.

Mae'r profiadau hyn wedi rhoi cyfle i bawb ddysgu pethau newydd, datblygu sgiliau ymarferol, ac adeiladu cysylltiadau cymdeithasol gwerthfawr – ac wrth gwrs, cael cymaint o hwyl wrth wneud! Rydym yn sicr y bydd y profiadau hyn yn parhau i ysgogi disgyblion dros y blynyddoedd nesaf.

# Ein Tîm Technoleg yn Tanio'r Ffordd




## Cynrychioli Cymru: HADO




Mae Lloyd James, disgybl Bl. 8, wedi cyrraedd carreg filltir enfawr, gan ymuno â Mr. R. Richardson, Mr. I. James, a Mr. O. Thomas ar dîm yr Uwch Gynghrair HADO, "War Pigs." Bydd Lloyd yn cynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth HADO Home Nations, ar Dachwedd 23ain yn Coventry.

## Dreigiau Cwm Rhymni yn mynd i Stadiwm y Principality ar gyfer Rownd Derfynol Esports!

Llongyfarchiadau i dîm Echwaraeon Dreigiau Cwm Rhymni, sydd wedi dangos dycnwch gan gyrraedd rownd derfynol Pencampwriaeth Echwaraeon Myfyrwyr, a gynhelir gan y WRU ac Esports Wales!

Bydd y tîm yn cystadlu'n fyw yn Stadiwm y Principality ar Ddydd Mercher, 5ed Tachwedd, gan herio Ysgol Uwchradd Cyfarthfa ac Ysgol Gymunedol Aberdâr yn rownd derfynol twrnamentt Rygbi 25. Cadwch lygaid barcud am y tîm, gan y bydd y WRU yn ffilmio cyfweliadau a threialon chwaraewyr ar Hydref 23ain! Gwyliwch sianel Twitch y WRU i weld y cyffro.






Hoffem ddiolch i'n mentoriaid ym Ml.11, sydd wedi gwirfoddoli i gefnogi'n disgyblion Bl.7. Mae'r cynllun hwn yn brosiect peilot, ac os fydd yn llwyddiannus, byddwn yn ei ymestyn i flynyddoedd eraill yn y dyfodol. Nod y cynllun yw sicrhau nad yw ein disgyblion Bl.7 yn teimlo'n bryderus wrth ddechrau yn yr ysgol, ac i roi cyfle iddynt gael rhywun dibynadwy i'w harwain a'u cefnogi. Rydym mor falch o'n mentoriaid am gamu i'r adwy gyda chynhesrwydd, aeddfedrwydd ac ymrwymiad i'n gwerthoedd ysgol.

Unwaith eto, hoffwn ddiolch o galon i wasanaethau Ieuenctid Caerffili am eu gwaith caled gyda disgyblion blwyddyn 11, wrth gynnal a'u cefnogi nhw gyda'r camau nesaf ym myd addysg.

Hoffwn atgoffa rhieni a gwarcheidwyr fod amrywiaeth o wethgareddau wedi eu trefnu ar gyfer plant ein hardal ni yng Nghanolfan Ieuenctid, Parc Firginia ac hefyd yng nghanolfan 'drop-in' Senghennydd. Bwriad y gweithgareddau yw i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd dros yr hanner tymor.

Gwasanaeth Ieuenctid Caerffili
Caerphilly Youth Service




Yn ystod y mis hwn, cawsom ein plesio'n fawr gyda Ffair Gyrfaoedd Blwyddyn 11 yma yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Roedd y digwyddiad yn gyfle gwych i'n disgyblion archwilio ystod eang o lwybrau i'r dyfodol, gyda nifer o fusnesau a sefydliadau lleol yn rhoi o'u hamser i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf. Roeddem yn hynod falch o frwdfrydedd, chwilfrydedd ac agwedd gadarnhaol ein disgyblion drwy gydol y diwrnod. Diolch enfawr i Mrs Evans, Mr Davies a Gyrfa Cymru am eu gwaith caled wrth drefnu digwyddiad mor llwyddiannus ac ysbrydoledig!

# Gwobrau Presenoldeb



Llongyfarchiadau ENFAWR i Oliver Vaughan. Presenoldeb o 100% am 6 mlynedd! Dyna uchelgais ichi!

Llongyfarchiadau i ddosbarth cofrestru 7 Sannan gyda'r presenoldeb uchaf yr ysgol y tymor hwn. DALIWCH ATI!

Llongyfarchiadau a diolch hefyd i Jenny Francis, ein Swyddog Lles Addysgol, am gynnal gwasanaethau gwerthfawr i'n grwpiau blwyddyn ar effaith presenoldeb ar lwyddiant academaidd. Roedd y sesiynau'n ysbrydoledig ac yn ein hatgoffa o bwysigrwydd bod yn bresennol bob dydd er mwyn cyflawni ein potensial llawn.

## Diolch i'n Mentoriaid Mislif!

Hoffem ddiolch i'n Mentoriaid Mislif sy'n gweithio i sicrhau bod pob ciwbicl tŷ bach yn yr ysgol wedi'u cyflenwi gydag adnoddau mislif. Mae'r cynllun yn sicrhau nad oes unrhyw un o'n disgyblion ifanc yn mynd heb gael yr hyn sydd ei angen arnynt yn ystod cyfnod eu mislif.

Mae'r prosiect hefyd yn hyrwyddo balchder mislif ac yn codi ymwybyddiaeth o'r cyfnod misol, gan fynd i'r afael â stigma sy'n aml yn gysylltiedig â hwy. Trwy'r cynllun hwn, mae ein disgyblion yn teimlo'n hyderus i ofyn am gynhyrchion pan fo angen, gan sicrhau bod pawb yn cael mynediad at adnoddau anghenrheidiol yn ystod eu bywydau ysgol. Diolch yn fawr iawn i'r disgyblion hyn am eu gwaith caredig ac hanfodol!






## Rhynglysol Trawsgwlad

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 7–9 a gymerodd ran yn y gystadleuaeth Rhynglysol, er mwyn derbyn pwyntiau llys. Roeddem yn falch iawn o'u hymdrechion a'u dyfalbarhad ac yn fach o anogaeth eu cyfoedion wrth iddynt gefnogi ei gilydd i gwblhau'r cwrs. Mae gweithgareddau fel hyn yn ein hatgoffa pa mor anhygoel yw ein pobl ifanc. Da iawn bawb!



# Llwyddiannau ein Disgyblion



Llongyfarchiadau mawr i Angharad Davies Bl.13 am ennill gwobr dysgwr y flwyddyn ar gyfer cynllun Cam wrth Gam gyda Mudiad Miethrin. Derbyniodd glod arbennig am ei hymrwymiad, egni a phositifrwydd. Gwych! Da iawn ti am fynd o nerth i nerth!



Llongyfarchiadau mawr i Holly Witts am raddio Haf eleni yn Mhrifysgol Caergrawnt gan ennill sawl cydnabyddiaeth aruchel wrth astudio diwinyddiaeth! Pob hwyl iti Holly wrth ddechrau ar dy anturiaethau nesaf. Rydym yn falch iawn ohonat!




Llongyfarchiadau i Bree Cronin, ein prif enillydd ddisgen yr ysgol, sydd yn 5ed yn y byd ar ôl ei llwyddiant yn Chwaraeon Para Athletau'r Byd.

# Llwyddiannau Unigolion

## Cynrychioli Cymru

Mae'n bleser ac yn fraint i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni allu dathlu llwyddiannau un o'n cyn-ddisgyblion mwyaf disglair – Dylan Lawlor – sydd bellach yn chwarae i dîm pêl-droed cenedlaethol Cymru.
Yn ystod ei amser yn yr ysgol, dangosodd Dylan rinweddau anhygoel: gostyngeiddrwydd, caredigrwydd ac empathi tuag at ei gyfoedion, ynghyg ag sgiliau arweinyddiaeth. Roedd yn arweinydd naturiol a sbardunodd eraill i ddatblygu eu safonau.

Mae Dylan yn parhau i fod yn ysbrydoliaeth i ni i gyd. Pan mae'n sôn am ei lwyddiannau , mae'n gwneud hynny gyda gostyngeiddrwydd, ac mae ei egni'n annog eraill i gymryd rhan mewn chwaraeon, beth bynnag yw eu gallu. Mae ei gyfraniad hyd yn hyn wedi bod yn drysor i'r ysgol, ac rydym yn parhau i'w gefnogi gyda balchder wrth i'w yrfa fynd o nerth i nerth.

Pob lwc i ti yn dy gemau nesa' Dylan - rydyn ni gyd yn edrych ymlaen at dy gefnogi!







Llongyfarchiadau i Sadie Watkins, a Lowri Windsor am gael eu dewis i gynrychioli Cymru ym mhêl rwyd!



Llongyfarchiadau i Ameera ar basio ei graddio. Mae hi bellach yn 1af Kup yn y Taekwondo!



Llongyfarchiadau Alex Cross am gael dy ddewis i chwarae pêl droed dros Gymru - am lwyddiant!



Clod mawr i Iolo Anthony am gwblhau Triathalon Saundersfoot mewn 1awr 32 munud, sef nofio 750m, beicio 20km, rhedeg 5km. Campus!

Llongyfarchiadau mawr i Lloyd Stonehouse (Bl.9) - Aelod o dîm buddugol pêl-fasged cadair olwyn Cymru ym mhencampwriaeth Prydain.




Llongyfarchiadau i Anya Gummer ar ôl cystadlu ym Mhencampwriaeth Karate y Byd yn Crawley yn ddiweddar.

Cyflawnodd Anya:

- Efydd mewn kata unigol
- Efydd mewn kata parau
- Aur mewn kata tîm
- Aur mewn cylchdro kumite tîm
- Efydd mewn kumite tîm

Da iawn i Mason Short o Flwyddyn 7 sy'n chwarae nid yn unig i Glwb Rygbi Bargoed ond hefyd i Ranbarth Rhymni ar ôl cyfrannu'n helaeth at eu buddugoliaeth anhygoel yn erbyn Pencoed y penwythnos hwn (28 - 21). Mae Mason yn chwaraewr brwd ac rydym yn siŵr y byddwn yn gweld mwy ohono dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.



# Llwyddiannau Unigolion



Yn ddiweddar, cymerodd Freya Goddard ran yn ras 1.5km Iron Kids Cymru yn Ninbych-y-pysgod, gan ddod i'r ail safle ymhlith y merched allan o tua 50 o redwyr cymysg.



Llongyfarchiadau i Gethin John Bl 8 a Gwenno Anthony Bl 7 am redeg 1.5km yn Ironkids Dinbych y Pysgod.





Llongyfarchiadau enfawr i Cerrig Day bl.12 am ddod yn ail gyda'i dad ym Mhencampwriaethau Cychod Modur Cenedlaethol OCRDA ym Mae Caerdydd dros y penwythnos.




Llongyfarchiadau i Toby Jones (bl.12) am ennill y wobr 'Inspirational Young Person' am ei waith gwirfoddol gydag elusen The Parish Trust. Mae Toby wedi:

- gwirfoddoli gyda phrosiect CARE
- helpu sefydlu'r 'RISE Youth Panel'
- rhedeg 10km am elusen The Parish Trust
- ennill grant i gynnal gweithdy i ddysgu plant y gymuned sut i feicio yn ddiogel

Am ysbrydoliaeth!

Cystadlodd Amelia Osbourne Bl 7 yn y gystadleuaeth gymnasteg artistig i ferched ac ymddangosodd yn y categori 12+, mewn lefel uwch yn Her Clasurol.
Perfformiodd rownd glir a hardd a daeth yn 4ydd fel rhan o'r tîm.



Llongyfarchiadau mawr i ti Harri am ennill lle haeddiannol iawn ar gwrs Inspire y Gerddorfa Genedlaethol i Ieuenctid. Llongyfarchiadau mawr i ti Scarlett am basio gradd 8 Coleg Cerdd Llundain gyda rhagoriaeth! Tipyn o gamp!



Llongyfarchiadau i Ffibi Rogers am berfformio gydag Opera Cenedlaethol Cymru yn eu cynhyrchiad o Tosca.



# Dyddiadau Pwysig:

**Tachwedd 2025**
06/11/2025 - Diwrnod Sgiliau Adolygu (Vespa) Gwyndy a Gellihaf - Bl 10
12/11/2025 - Cyfarfod Cynnydd Bl.8
17/11/2025 - 28/11/2025 - Asesiadau Ysgol Isaf + SHRN holiaduron llesiant
26/11/2025 - Cyfarfod Cynnydd Bl.12
28/11/2025 - Ffair Nadolig ar safle Gellihaf

**Rhagfyr 2025**
03/12/2025 - Diwrnod Blas y Chweched a Noson Agored y Chweched Dosbarth (i Fl 11) - 5-7pm
10/12/2025 - 12/12/2025 - Ffug Arholiadau Bl.10
11/12/2025 - 18/12/2025 - Ffug Arholiadau Bl.11
10/12/2025 - 17/12/2025 - Ffug Arholiadau Bl.13
16/12/2025 - Cyngerdd Nadolig - (6YH > 7YH)
12/01/2026 - 16/01/2026 - Ffug Arholiadau Bl.12

**Ionawr 2026**
14/01/2026 - Cyfarfod Cynnydd Bl.11

**Chwefror 2026**
04/02/2026 - Cyfarfod Cynnydd Bl.9 - Opsiynau
11/02/2026 - Cyfarfod Cynnydd Bl.9 - Craidd
09/02/2026 - 10/02/2026 - Ffug Arholiadau Bl.11 (Mathemateg/Cymraeg/Saesneg)
25/02/2026 - Cyfarfod Cynnydd Bl.13

**Mawrth 2026**
11/03/2026 - Cyfarfod Cynnydd Blwyddyn 10
27/03/2026 - Hyfforddiant INSET

**Ebrill 2026**
07/04/2026 - HMS
29/04/2026 - Cyfarfod Cynnydd Bl.7

**Mai 2026**
07/05/2026 - 17/06/2026 - Arholiadau TGAU/UG/Uwch

**Mehefin 2026**
12/06/2026 - Diwrnod Pontio Bl.6
25/06/2026 - Noson Agored i Rieni Bl.5/6

**Gorffennaf 2026**
01/07/2026 - Diwrnod Pontio Bl.6
06/07 - 16/07/2026 - Diwrnodau lles a'r Prosiect Mawr
09/07/2026 - PROM BL 11
17/07/2026 - Diwedd y flwyddyn




Ymunwch â'n tudalen **Facebook PTCA** swyddogol, i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau a dathliadau...

Neu edrychwch ar ein **Padlet** ysgol am lu o lwyddiannau eraill!